**GORCHYMYN PRYNU GORFODOL**

**(DEUOLI A4119 COED-ELÁI)**

**GORCHYMYN PRYNU GORFODOL 2020**

Deddf Priffyrdd 1980 a Deddf Caffael Tir 1981

1. Hysbysir drwy hyn i Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, drwy arfer ei bwerau o dan y Deddfau uchod, gadarnhau Gorchymyn Prynu Gorfodol 2020 Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (Deuoli A4119, Coed-elái) ar 14 Ebrill 2022 a wnaed ganddo ("y gorchymyn"). Ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiad i'r gorchymyn o fewn y cyfnod a ganiateir ac, o ganlyniad, rhoddwyd hysbysiad gan Weinidogion Cymru y gallai'r pŵer i gadarnhau'r gorchymyn gael ei arfer gan yr awdurdod caffael yn unol ag adran 14A o Ddeddf Caffael Tir 1981.

2. Mae'r gorchymyn yn darparu ar gyfer prynu'r tir a'r hawliau newydd a ddisgrifir yn Atodlen 1 isod at ddibenion:
   (i) darparu ffordd ddeuol ddwyffordd 1.5 cilomedr o hyd ar hyd yr A4119 rhwng Cylchfan Coed-elái a Chylchfan Pencadlys Gwasanaeth Tân De Cymru.
   (ii) Llwybr i'r Gymuned 3 metr o led ar hyd ochr orllewinol ffordd yr A4119 ac yn cysylltu cylchfan Parc Busnes Llantrisant i'r llwybr beicio i Gylchfan Coed-elái.
   (iii) adeiladu pont droed i'r de o Gylchfan Coed-elái i alluogi cerddwyr a beicwyr i groesi o'r llwybr newydd i Goed-elái.
   (iv) lledu'r ffordd gerbydau i'r gogledd o Gylchfan Coed-elái i greu dwy lôn sy'n uno oddi ar Gylchfan Coed-elái.
   (v) uwchraddio pedwar ceuffos ar hyd yr A4119 gyda dau o'r ceuffosydd yn cael eu creu fel croesfannau i fywyd gwyllt.

3. Adneuwyd copi o'r gorchymyn a'r map y cyfeirir ato yn Llyfrgell Gymuned Llantrisant, Canolfan Hamdden Llantrisant, Parc Porth y De, Llantrisant CF72 8DJ 2XX a gellir eu gweld ar bob adeg resymol ac ar wefan www.rctcbc.gov.uk/DeuoliA4119.

4. Mae’r gorchymyn yn dod i rym ar y dyddiad mae’r gorchymyn yma’n cael ei gyhoeddi am y tro cyntaf. Mae modd i unrhyw un sy’n tybio ei fod yn cael cam yn sgîl y gorchymyn gyflwyno cais i’r Uchel Lys cyn pen 6 wythnos o’r dyddiad hwnnw, i herio'i ddilysrwydd o dan adran 23 o Ddeddf Caffael Tir 1981. Y sail dros herio yw nad oes grym i ganiatáu’r hawl mae’r gorchymyn yn ei roi neu mae un neu ragor o ofynion statudol sydd ynglŷn â’r gorchymyn heb eu cyflawni.

5. Unwaith i'r gorchymyn ddod yn weithredol, gall Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf gaffael unrhyw ran o'r tir sy'n cael ei disgrifio yn Atodlen 1 isod drwy weithredu datganiad breinio cyffredinol o dan adran 4 o Ddeddf Prynu Gorfodol (Datganiadau Breinio) 1981. Mae datganiad ynglŷn ag effaith Rhannau 2 a 3 o'r Ddeddf wedi'i nodi yn Atodlen 2 isod.

6. Pe bai datganiad breinio cyffredinol yn cael ei gyflawni o dan adran 4 o Ddeddf Prynu Gorfodol (Datganiadau Breinio) 1981 mewn perthynas â'r tir sy'n cael ei gynnwys yn y gorchymyn (ar wahân i dir y mae hysbysiad trafod wedi'i roi yn ei gylch) byddai pob person sydd â hawl i iawndal mewn perthynas ag unrhyw dir o'r fath, yn cael ei wahodd i roi gwybodaeth i Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach CF40 2XX ynglŷn â'i enw a'i gyfeiriad a'r tir dan sylw, gan ddefnyddio ffurflen ragnodedig. Mae'r ffurflen ragnodedig berthnasol wedi'i nodi yn Atodlen 3 isod.

**ATODLEN 1**
**DISGRIFIAD O DIR A'R HAWLIAU NEWYDD YN Y GORCHYMYN FEL Y'I CADARNHAWYD**

| Rhif ar y map | Hyd a lled, disgrifiad a lleoliad y tir |
|---|---|
| | Mae'r holl leiniau wedi'u lleoli ar yr A4119, Heol Cwm Elái, yng Nghoed-elái ac Ynysmaerdy, neu gyferbyn â hi |
| 1 | 2997 o fetrau sgwâr o ran o ffyrdd cyhoeddus, cilfan a lleiniau ymyl yr A4119, Heol Cwm Elái, i'r gogledd-orllewin o'r A4119, Cylchfan Coed-elái. |
| 1A | 11953 o fetrau sgwâr o ran o ffyrdd cyhoeddus, mynedfeydd i gatiau caeau, llwybrau troed, lleiniau ymyl, argloddiau, glaswelltir a chylchfan yr A4119, Heol Cwm Elái, a ffordd ddienw tua chyfeiriad y de tuag at Goedwig Smilog. |
| 1B | 650 o fetrau sgwâr o ran o ffyrdd cyhoeddus, llwybrau troed, lleiniau ymyl ac argloddiau i'r gogledd-ddwyrain o’r A4119, Heol Cwm Elái. |
| 2 | 105 o fetrau sgwâr o ran o ffyrdd cyhoeddus a lleiniau ymyl yr A4119, Heol Cwm Elái, i'r gorllewin o'r A4119, Cylchfan Coed-elái. |
| 3 | 54 o fetrau sgwâr o ran o lain ymyl ac arglawdd yr A4119, Heol Cwm Elái, i'r de-orllewin o Gylchfan Coed-elái. |
| 3A | 110 o fetrau sgwâr o ran o lain ymyl ac arglawdd yr A4119, Heol Cwm Elái, i'r de-orllewin o'r A4119, Cylchfan Coed-elái. |
| 3B | 4645 o fetrau sgwâr o ran o ffordd gyhoeddus, cylchfan, llwybr troed, llain ymyl, argloddiau, glaswelltir a phrysgoed coetir yr A4119, Heol Cwm Elái, oll i'r de a'r gorllewin o'r A4119, Cylchfan Pencadlys Gwasanaeth Tân De Cymru. |
| 3C | 217 o fetrau sgwâr o ran o ffordd gyhoeddus, cylchfan, llwybr troed a llain ymyl yr A4119, Heol Cwm Elái, i'r dwyrain o Bencadlys Gwasanaeth Tân De Cymru. |
| 3D | 385 o fetrau sgwâr o ran o ffyrdd cyhoeddus, llwybrau troed a lleiniau ymyl yr A4119, Heol Cwm Elái, i'r gorllewin o'r A4119, Cylchfan Ynysmaerdy. |
| 3E | 482 o fetrau sgwâr o ran o ffyrdd cyhoeddus, cylchfan, llwybrau troed, lleiniau ymyl ac argloddiau'r A4119, Heol Cwm Elái, ar dir i'r de o Bencadlys Gwasanaeth Tân De Cymru. |
| 3F | 4070 o fetrau sgwâr o ran o ffordd gyhoeddus, cylchfan, safle bws, llwybr troed a llain ymyl yr A4119, Heol Cwm Elái, i'r dwyrain o Bencadlys Gwasanaeth Tân De Cymru. |
| 4 | 464 o fetrau sgwâr o ran o ffyrdd cyhoeddus, llwybrau troed a lleiniau ymyl yr A4119, Heol Cwm Elái, i'r gogledd o'r A4119, Cylchfan Coed-elái. |
| 5 | 390 o fetrau sgwâr o ran o arglawdd coediog i ffos i'r gogledd o ffordd ddienw sy'n arwain tua'r de-ddwyrain tuag at Goedwig Smilog. |

| | |
|---|---|
| 6 | 4826 o fetrau sgwâr o ran o'r tir pori gan gynnwys glan y nant, cyrsiau dŵr wedi'u sianeli a chefnfuriau cysylltiedig Fferm Pant Glas i'r de-orllewin o'r A4119, Cylchfan Coed-elái, i'r gogledd-orllewin o adeiladau preswyl Fferm Pant Glas (CF72 8LN). |
| 6A | 415 o fetrau sgwâr o ran o dir pori Fferm Pant Glas i'r de o'r A4119, Heol Cwm Elái, i'r de-orllewin o adeiladau preswyl Fferm Pant Glas (CF72 8LN). |
| 6B | 56 o fetrau sgwâr o ran o arglawdd â llystyfiant sydd â chwrs dŵr wedi'i sianeli yn Fferm Pant Glas i'r de-orllewin o'r A4119, Heol Cwm Elái, i'r de-ddwyrain o adeiladau preswyl Fferm Pant Glas (CF72 8LN). |
| 6C | 305 o fetrau sgwâr o ran o argloddiau â llystyfiant sydd â chwrs dŵr wedi'i sianeli, mynediad i gae, a gwely nant yn Fferm Pant Glas i'r de-orllewin o'r A4119, Heol Cwm Elái, i'r de-ddwyrain o adeiladau preswyl Fferm Pant Glas (CF72 8LN). |
| 6D | 57 o fetrau sgwâr o ran o arglawdd â llystyfiant sydd â chwrs dŵr yn Fferm Pant Glas i'r de-orllewin o'r A4119, Heol Cwm Elái, i'r de-ddwyrain o adeiladau preswyl Fferm Pant Glas (CF72 8LN). |
| 6E | 331 o fetrau sgwâr o ran o arglawdd â llystyfiant sydd â chwrs dŵr wedi'i si aneli, cae pori, mynediad i gae, a gwely nant yn Fferm Pant Glas i'r de-orllewin o'r A4119, Heol Cwm Elái, i'r de-ddwyrain o adeiladau preswyl Fferm Pant Glas (CF72 8LN). |
| 6F | 1788 o fetrau sgwâr o ran o hyd a lled deheuol y cae pori yn Fferm Pant Glas i'r de o'r A4119, Heol Cwm Elái, i'r de-orllewin o adeiladau preswyl Fferm Pant Glas (CF72 8LN). |
| 6G | 121 o fetrau sgwâr o ran o hyd a lled deheuol y cae pori yn Fferm Pant Glas i'r de-orllewin o'r A4119, Heol Cwm Elái, i'r de-ddwyrain o adeiladau preswyl Fferm Pant Glas (CF72 8LN). |
| 6H | 56 o fetrau sgwâr o ran o dir pori ac arglawdd â llystyfiant Fferm Pant Glas i'r de o'r A4119, Cylchfan Coed-elái, i'r de-orllewin o adeiladau preswyl Fferm Pant Glas (CF72 8LN). |
| 6J | 57 o fetrau sgwâr o ran o dir pori, gardd ac arglawdd â llystyfiant Fferm Pant Glas i'r de-orllewin o'r A4119, Heol Cwm Elái, i'r gogledd-orllewin o adeiladau preswyl Fferm Pant Glas (CF72 8LN). |
| 7 | 1028 o fetrau sgwâr o ran o'r tir pori, gan gynnwys gwely nant, mynediad i gae a gwrychoedd terfyn ar dir i'r gogledd-ddwyrain o'r A4119, Heol Cwm Elái. |
| 7A | 881 o fetrau sgwâr o ran o'r tir pori, gan gynnwys gwely nentydd, mynediad i gae a gwrychoedd terfyn ar dir i'r gogledd-ddwyrain o'r A4119, Heol Cwm Elái. |
| 8 | 6167 o fetrau sgwâr o ran o'r tir pori, gan gynnwys glan a gwely nant a gwrychoedd terfyn i'r gogledd-ddwyrain o'r A4119, Heol Cwm Elái. |
| 8A | 6167 o fetrau sgwâr o ran o'r tir pori, gan gynnwys glan a gwely nant a gwrychoedd terfyn i'r gogledd-ddwyrain o'r A4119, Heol Cwm Elái. |
| 9 | 13793 o fetrau sgwâr o ran o'r tir pori, gan gynnwys gwely nant a gwrychoedd terfyn, i'r gogledd-ddwyrain o'r A4119, Heol Cwm Elái. |
| 9A | 1151 o fetrau sgwâr o ran o'r tir pori, gan gynnwys gwely nant a gwrychoedd terfyn, i'r gogledd-ddwyrain o'r A4119, Heol Cwm Elái. |
| 10 | Y cyfan o 890 o fetrau sgwâr o dir prysg a choetir sy'n cael eu defnyddio'n rhannol ar gyfer tyddyn, i'r de-orllewin o'r A4119, Heol Cwm Elái. |
| 11 | 176 o fetrau sgwâr o ran o goetir, gwely a glan nant a chefnfur cwlfer sy'n rhan o arglawdd gorllewinol i Weithfeydd Trin Carthffosiaeth i'r de-orllewin o Heol Cwm Elái, yng Ngweithfeydd Trin Carthffosiaeth Dyffryn Isaf. |
| 11A | 1926 o fetrau sgwâr o ran o dir prysg, coetir a ffordd fynediad breifat i Weithfeydd Trin Carthffosiaeth i'r gogledd-ddwyrain o Heol Cwm Elái, yng Ngweithfeydd Trin Carthffosiaeth Dyffryn Isaf. |
| 11B | 1075 o fetrau sgwâr o ran o dir prysg, coetir a ffordd fynediad breifat i Weithfeydd Trin Carthffosiaeth i'r gogledd-ddwyrain o Heol Cwm Elái, yng Ngweithfeydd Trin Carthffosiaeth Dyffryn Isaf. |
| 11C | 744 o fetrau sgwâr o ran o ffordd fynediad breifat, gwrychoedd ac arglawdd â llystyfiant i Weithfeydd Trin Carthffosiaeth i'r de-orllewin o Heol Cwm Elái, yng Ngweithfeydd Trin Carthffosiaeth Dyffryn Isaf. |
| 11D | 89 o fetrau sgwâr o ran o ffordd fynediad breifat a llain ymyl las i Weithfeydd Trin Carthffosiaeth i'r de-orllewin o Heol Cwm Elái, yng Ngweithfeydd Trin Carthffosiaeth Dyffryn Isaf. |
| 11E | 1881 o fetrau sgwâr o ran o ffordd fynediad breifat, tir prysg a choetir i Weithfeydd Trin Carthffosiaeth i'r de-orllewin o Heol Cwm Elái, yng Ngweithfeydd Trin Carthffosiaeth Dyffryn Isaf. |
| 12 | 4295 o fetrau sgwâr o ran o dir pori, coetir, gwrychoedd, gwely nant a siediau i'r gogledd-ddwyrain o'r A4119, Heol Cwm Elái. |
| 12A | 267 o fetrau sgwâr o dir pori, gwrychoedd, a gwely nant i'r gogledd-ddwyrain o'r A4119, Heol Cwm Elái. |
| 13 | 197 o fetrau sgwâr o ran o ffordd fynediad breifat i Ddyffryn Uchaf a lleiniau ymyl a choetir cyfagos, i'r gogledd-ddwyrain o'r A4119, Heol Cwm Elái. |
| 13A | 102 o fetrau sgwâr o ran o ffordd fynediad breifat i Ddyffryn Uchaf a lleiniau ymyl a choetir cyfagos, i’r gogledd-ddwyrain o’r A4119, Heol Cwm Elái. |
| 14 | 301 o fetrau sgwâr o ran o fynediad preifat i Ddyffryn Isaf, a thir pori, llain ymyl a choetir cyfagos, i'r gogledd-ddwyrain o'r A4119, Heol Cwm Elái, yn Nyffryn Isaf. |
| 14A | 527 o fetrau sgwâr o ran o fynediad preifat i Ddyffryn Isaf, a thir pori, llain ymyl a choetir cyfagos, i'r gogledd-ddwyrain o'r A4119, Heol Cwm Elái, yn Nyffryn Isaf. |
| 14B | 292 o fetrau sgwâr o ran o ategwaith pont reilffordd nad yw'n cael ei defnyddio, llain ymyl, coetir, gwely a glannau nant a chefnfur cwrs dŵr, i'r gogledd-ddwyrain o'r A4119, Heol Cwm Elái, yn Nyffryn Isaf. |
| 14C | 359 o fetrau sgwâr o ran o goetir, gwely a glannau nant, llwybr mynediad a thir prysg y tu ôl i wal gynnal, i'r gogledd-ddwyrain o'r A4119, Heol Cwm Elái, yn Nyffryn Isaf. |
| 15 | 453 o fetrau sgwâr o ran o ffordd gyhoeddus, llwybr troed a llain ymyl yr A4119, Heol Cwm Elái, wrth yr A4119, Cylchfan Coed-elái. |
| 15A | 1163 o fetrau sgwâr o ran o ffordd gyhoeddus a lleiniau ymyl yr A4119, Heol Cwm Elái, wrth yr A4119, Cylchfan Coed-elái. |
| 15B | 627 o fetrau sgwâr o ran o ffordd gyhoeddus, llwybr troed a llain ymyl yr A4119, Heol Cwm Elái, i'r gogledd-orllewin o adeiladau preswyl Fferm Pant Glas. |
| 15C | 546 o fetrau sgwâr o ran o ffordd gyhoeddus, llwybr troed a llain ymyl yr A4119, Heol Cwm Elái, ar yr A4119, Cylchfan Coed-elái, i'r gogledd-orllewin o adeiladau preswyl Fferm Pant Glas. |

| | |
|---|---|
| 15D | 562 o fetrau sgwâr o ran o ffordd gyhoeddus, mynediad i gae, llain ymyl ac arglawdd, wrth yr A4119, Heol Cwm Elái. |
| 15E | 417 o fetrau sgwâr o ran o ffordd gyhoeddus, llwybr troed a llain ymyl yr A4119, Heol Cwm Elái, wrth yr A4119, Heol Cwm Elái, i ddwyrain adeiladau preswyl Fferm Pant Glas. |
| 15F | 2194 o fetrau sgwâr o ran o ffordd gyhoeddus, mynediad i gae, llain ymyl ac arglawdd, wrth yr A4119, Heol Cwm Elái. |
| 15G | 2534 o fetrau sgwâr o ran o ffordd gyhoeddus, llwybr troed a llain ymyl, wrth yr A4119, Heol Cwm Elái, i'r de-ddwyrain o adeiladau preswyl Fferm Pant Glas. |
| 15H | 165 o fetrau sgwâr o ran o ffyrdd cyhoeddus, mynediad i gae, llwybrau troed a lleiniau ymyl, wrth yr A4119, Heol Cwm Elái, i'r ochr ogledd-orllewin o Weithfeydd Trin Carthffosiaeth. |
| 15J | 522 o fetrau sgwâr o ran o ffordd gyhoeddus, mynediad i gae, llain ymyl ac arglawdd, wrth yr A4119, Heol Cwm Elái, ar yr ochr orllewinol o'r Gweithfeydd Trin Carthffosiaeth. |
| 15K | 5029 o fetrau sgwâr o ran o ffordd gyhoeddus, ffyrdd mynediad, llwybr troed, llain ymyl ac arglawdd, wrth yr A4119, Heol Cwm Elái, i'r gogledd a'r de o Weithfeydd Trin Carthffosiaeth. |
| 15L | 284 o fetrau sgwâr o ffordd gyhoeddus, ffordd fynediad, lleiniau ymyl ac argloddiau, wrth yr A4119, Heol Cwm Elái, yn Nyffryn Isaf. |
| 15M | 1412 o fetrau sgwâr o ran o ffordd gyhoeddus, llain ymyl ac arglawdd, wrth yr A4119, Heol Cwm Elái, yn Nyffryn Isaf. |
| 15N | 96 o fetrau sgwâr o ffordd gyhoeddus, ffordd fynediad, llwybr troed a llain ymyl, wrth yr A4119, Heol Cwm Elái, i'r gogledd o Common Junction Sidings. |
| 15O | 397 o fetrau sgwâr o ran o ffordd gyhoeddus, llwybr troed a llain ymyl, wrth yr A4119, Heol Cwm Elái, i'r gogledd o Common Junction Sidings. |
| 15P | 214 o fetrau sgwâr o ran o ffordd gyhoeddus, ffordd fynediad, llwybr troed, llain ymyl a wal, wrth yr A4119, Heol Cwm Elái, i'r gogledd-ddwyrain o fynediad preifat i orsaf pwmpio dŵr y Bathdy Brenhinol. |
| 15Q | 720 o fetrau sgwâr o ran o ffordd gyhoeddus a llain ymyl, wrth yr A4119, Heol Cwm Elái, i'r de-orllewin o Bencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru. |
| 15R | 1019 o fetrau sgwâr o ran o ffordd gyhoeddus a llain ymyl, wrth yr A4119, Heol Cwm Elái, Cylchfan Pencadlys Gwasanaeth Tân De Cymru. |
| 15S | 275 o fetrau sgwâr o ran o ffordd gyhoeddus, cylchfan, llwybrau troed a lleiniau ymyl, wrth yr A4119, Heol Cwm Elái, Cylchfan Pencadlys Gwasanaeth Tân De Cymru. |
| 15T | 756 o fetrau sgwâr o ran o lwybr troed cyhoeddus, llain ymyl a glaswelltir, wrth yr A4119, Heol Cwm Elái, Cylchfan Pencadlys Gwasanaeth Tân De Cymru. |
| 15U | 1281 o fetrau sgwâr o ran o ffordd gyhoeddus, cylchfan, llwybr troed, llain ymyl a glaswelltir, wrth yr A4119, Heol Cwm Elái, Cylchfan Pencadlys Gwasanaeth Tân De Cymru a'r A4119, Heol Cwm Elái gyfagos, i'r dwyrain o'r A4119, Cylchfan Pencadlys Gwasanaeth Tân De Cymru. |
| 15V | 620 o fetrau sgwâr o ran o ffordd gyhoeddus, llwybr troed, llain ymyl a glaswelltir yr A4119, Heol Cwm Elái, oll i’r gorllewin o’r A4119, Cylchfan Ynysmaerdy. |
| 15W | 500 o fetrau sgwâr o ran o ffordd gyhoeddus, llwybr troed, llain ymyl a glaswelltir yr A4119, Heol Cwm Elái, oll i'r gorllewin o'r A4119, Cylchfan Ynysmaerdy. |
| 16 | 256 o fetrau sgwâr o ran o ffordd fynediad ac iard breifat eiddo masnachol i'r de-ddwyrain o'r A4119, Heol Cwm Elái, Common Junction Sidings. |
| 16A | 99 o fetrau sgwâr o ran o ffordd fynediad breifat eiddo masnachol i'r de-ddwyrain o'r A4119, Heol Cwm Elái, Common Junction Sidings. |
| 17 | 870 o fetrau sgwâr o ran o gwrt blaen asffalt eiddo masnachol i'r de-ddwyrain o'r A4119, Heol Cwm Elái, Common Junction Sidings. |
| 17A | 159 o fetrau sgwâr o ran o gwrt blaen asffalt eiddo masnachol i'r de-ddwyrain o'r A4119, Heol Cwm Elái, Common Junction Sidings. |
| 18 | 50 o fetrau sgwâr o ran o ffordd fynediad breifat i orsaf bwmpio, lleiniau ymyl, gatiau a ffensys ffiniau i'r de-ddwyrain o'r A4119, Heol Cwm Elái. |
| 18A | 109 o fetrau sgwâr o ran o ffordd fynediad breifat i orsaf bwmpio a lleiniau ymyl cysylltiedig i'r de-ddwyrain o'r A4119, Heol Cwm Elái. |
| 19 | 330 o fetrau sgwâr o ran o dir prysg â llystyfiant i'r de-ddwyrain o'r A4119, Heol Cwm Elái, yr holl dir sy'n gyfagos i Signalman's Cottage (CF72 8LN). |
| 19A | 183 o fetrau sgwâr o ran o dir prysg â llystyfiant i'r de-ddwyrain o'r A4119, Heol Cwm Elái, yr holl dir sy'n gyfagos i Signalman's Cottage (CF72 8LN). |
| 20 | 390 o fetrau sgwâr o ran o lain ymyl â glaswellt a llystyfiant yr A4119, Heol Cwm Elái, i'r gogledd-orllewin o'r A4119, Heol Cwm Elái, ym Mhencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru. |
| 20A | 449 o fetrau sgwâr o ran o lain ymyl â glaswelltir a llystyfiant yr A4119, Heol Cwm Elái, i'r gogledd-orllewin o'r A4119, Heol Cwm Elái, ym Mhencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru. |
| 20B | 172 o fetrau sgwâr o ran o ffordd fynediad breifat, llwybrau troed a lleiniau ymyl â glaswelltir Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru i'r gogledd o'r A4119, Heol Cwm Elái, ym Mhencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru. |
| 21 | 18 o fetrau sgwâr o lain ymyl a llwybr troed wrth ymyl y ffordd fynediad i Bencadlys y Gwasanaeth Tân i'r gogledd o'r A4119, Heol Cwm Elái, wrth y mynediad i Bencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru. |

## ATODLEN 2
## FFURF AR DDATGANIAD O EFFAITH RHANNAU 2 A 3 o DDEDDF PRYNU GORFODOL (DATGANIADAU BREINIO) 1981

**Pŵer i weithredu datganiad breinio cyffredinol**

1. Unwaith y bydd Gorchymyn Prynu Gorfodol 2020 Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf (Deuoli A4119, Coed-elái) wedi dod yn weithredol, gall Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf ("y Cyngor") gaffael unrhyw ran o'r tir a ddisgrifir yn Atodlen 1 uchod drwy weithredu datganiad breinio cyffredinol o dan adran 4 o Ddeddf Prynu Gorfodol (Datganiadau Breinio) 1981 ("y Ddeddf"). Mae hyn yn cael yr effaith, yn ddarostyngedig i baragraffau 3 a 5 isod, o freinio'r tir yn y Cyngor ar ddiwedd y cyfnod a grybwyllir ym mharagraff 2.

**Hysbysiadau ynghylch datganiad breinio cyffredinol**

2. Cyn gynted â phosibl ar ôl i'r Cyngor weithredu datganiad breinio cyffredinol, rhaid iddyn nhw roi hysbysiad ohono i bob meddiannydd ar unrhyw ran o'r tir a bennir yn y datganiad (ac eithrio tir lle mae un o'r tenantiaethau a ddisgrifir ym mharagraff 4) ac i bob person sy'n rhoi gwybodaeth iddyn nhw yn ymwneud â'r tir yn dilyn y gwahoddiad a geir yn yr hysbysiad cadarnhau o'r gorchymyn. Ar ôl cwblhau cyflwyno hysbysiadau ynglŷn â'r datganiad breinio cyffredinol, bydd cyfnod sydd wedi ei bennu yn y datganiad, nad yw'n llai na thri mis, yn cychwyn. Ar y diwrnod cyntaf ar ôl i'r cyfnod hwn ddod i ben, bydd y tir sydd wedi'i ddisgrifio yn y datganiad, yn ddarostyngedig i'r hyn a ddywedir ym mharagraffau 3 a 5, yn cael ei freinio yn y Cyngor ynghyd â'r hawl i fynd ar y tir a'i feddiannu. Bydd gan bob person y gallai'r Cyngor fod wedi cyflwyno hysbysiad i drafod telerau iddynt mewn cysylltiad â'u buddiant yn y tir (ac eithrio tenant o dan un o'r tenantiaethau sy'n cael eu disgrifio ym mharagraff 4) yr hawl i hawlio iawndal am gaffael eu buddiant yn y tir, ynghyd â llog ar yr iawndal, a hynny o'r dyddiad breinio.

3. Y "dyddiad breinio" ar gyfer unrhyw dir sydd wedi ei bennu mewn datganiad fydd y diwrnod cyntaf ar ôl i'r cyfnod a grybwyllir ym mharagraff 2 ddod i ben, oni fydd gwrth-hysbysiad yn cael ei gyflwyno o dan Atodlen 1A i'r Ddeddf o fewn y cyfnod hwnnw. Os cyflwynir gwrth-hysbysiad, caiff y dyddiad breinio ar gyfer y tir sy'n destun y gwrth-hysbysiad ei bennu yn unol ag Atodlen A1.

**Addasiadau mewn cysylltiad â thenantiaethau penodol**

4. Yn achos tenantiaethau penodol, bydd addasiadau'n berthnasol i'r hyn sy'n cael ei ddatgan uchod. Mae'r addasiadau'n gymwys pan fo'r denantiaeth naill ai'n "fân denantiaeth", h.y. yn denantiaeth am flwyddyn neu'n denantiaeth flynyddol neu'n fuddiant llai, neu'n "denantiaeth hir sydd ar fin dod i ben". Ystyr "tenantiaeth hir sydd ar fin dod i ben" yw tenantiaeth sy'n cael ei rhoi ar gyfer buddiant sy'n fwy na mân denantiaeth ond, ar y diwrnod breinio, nad yw cyfnod y denantiaeth honno wedi dod i ben ac nad yw'r cyfnod hwnnw yn hwy na'r cyfnod a bennir yn y datganiad at y diben hwn (y mae rhaid iddo fod yn fwy na blwyddyn). Wrth gyfrifo faint sy'n weddill o denantiaeth, os bydd unrhyw opsiwn i'w hadnewyddu neu i'w therfynu ar gael i'r naill barti neu'r llall, tybir y bydd y landlord yn achub ar bob cyfle i derfynu'r denantiaeth ac y bydd y tenant yn achub ar bob cyfle i gadw neu i adnewyddu ei fuddiant.

5. Yr addasiadau yw na chaiff y Cyngor weithredu'r hawl mynediad y cyfeirir ato ym mharagraff 2 mewn cysylltiad â thir sy'n ddarostyngedig i denantiaeth a ddisgrifir ym mharagraff 4 oni bai eu bod yn gyntaf yn cyflwyno hysbysiad i drafod telerau mewn cysylltiad â'r denantiaeth ac wedyn yn cyflwyno hysbysiad i bob un sy'n meddiannu'r tir o'u bwriad i fynd ar y tir a'i feddiannu ar ôl y cyfnod a bennir yn yr hysbysiad (na chaiff fod yn llai na thri mis ar ôl cyflwyno'r hysbysiad). Bydd modd rhoi'r hawl mynediad ar waith ar ddiwedd y cyfnod hwnnw. Bydd breinio'r tir yn ddarostyngedig i'r denantiaeth tan ddiwedd y cyfnod hwnnw neu hyd nes y daw'r denantiaeth i ben, pa un bynnag sy'n digwydd gyntaf.

## ATODLEN 3
## FFURF AR GYFER RHOI GWYBODAETH

AT: Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

[Yr wyf fi] [Yr ydym ni] [a minnau'n berson] [a ninnau'n bersonau] a fyddai, pe bai datganiad breinio cyffredinol yn cael ei weithredu o dan adran 4 o Ddeddf Prynu Gorfodol (Datganiadau Breinio) 1981 mewn cysylltiad â'r holl dir sydd yn y gorchymyn prynu gorfodol y cyfeirir ato uchod ac na roddwyd hysbysiad i drafod telerau mewn cysylltiad ag ef, â'r hawl i hawlio iawndal ar gyfer [yr holl dir] [rhan o'r tir] hwnnw, yn rhoi'r wybodaeth a ganlyn i chi, yn unol â darpariaethau adran 15 o, neu baragraff 6 o Atodlen 1, i Ddeddf Caffael Tir 1981.

1. Enw a chyfeiriad yr hysbysydd/hysbyswyr
   ..........................................................................................
   ..........................................................................................

2. Y tir y mae gan yr hysbysydd/hysbyswyr fuddiant ynddo
   ..........................................................................................

3. Natur y buddiant ..............................................................

Llofnod ......................................................................................................................
[ar ran .......................................................................................................................]
Dyddiad ......................................................................................................................

(i) Yn achos buddiant ar y cyd, mewnosoder enwau a chyfeiriadau'r hysbyswyr i gyd.
(ii) Dylid disgrifio'r tir yn gryno.
(iii) Os lesddaliad yw'r buddiant, dylid rhoi dyddiad cychwyn y cyfnod a'i hyd. Os yw'r tir o dan forgais neu fath arall o lyffethair, dylid rhoi'r manylion, e.e. enw'r gymdeithas adeiladu a'r rhif rôl.

**Dyddiad 11 Mai 2022**

A. S. Wilkins

**Andrew Wilkins**
**Director of Legal Services**
**The Pavilions, Cambrian Park, Clydach Vale, CF40 2XX**